8 Gorffennaf 2024

Annwyl

**ATISN 19659**

**Cais am wybodaeth**

Diolch ichi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 10 Mehefin 2024. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1) Diffiniad o addysg cyfrwng dwyieithog, diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg a diffiniad o addysg cyfrwng Saesneg yn y sectorau addysg ôl-16, prentisiaethau ac addysg uwch.

2) Cyfanswm y gyllideb sy'n cael ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16 ar draws yr holl sector ar gyfer y flwyddyn 2022-23 a 2023-2024.

3) Y gyllideb sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (ar wahân) ar draws yr holl sector, fel symiau yn ogystal â fel canrannau o'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn 2022-23 a 2023-2024.

**Ein hymateb**

Ceir copi o'r wybodaeth yn Atodiad A.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw peth o'r wybodaeth y gofynnir amdani – rwyf wedi nodi esboniad o hyn yn Atodiad A.

**Camau Nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru i'r cyfeiriad isod:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office,

Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9  5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes iddi fod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,

**Atodiad A**

**1) Diffiniad o addysg cyfrwng dwyieithog, diffiniad o addysg cyfrwng Cymraeg a diffiniad o addysg cyfrwng Saesneg yn y sectorau addysg ôl-16, prentisiaethau ac addysg uwch.**

At ddibenion casglu data ar gyfer addysg ôl-16 mewn ysgolion, gweler dudalennau 60-61 o Nodiadau Cwblhau Technegol: Casgliad data Ôl-16 ar gyfer 2022/2023

At ddibenion casglu data ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, gweler dudalennau 104 a 128 o Lifelong Learning Wales Record - User Support Manual for learning providers - 2022/23.

**2) Cyfanswm y gyllideb sy'n cael ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg ôl-16 ar draws yr holl sector ar gyfer y flwyddyn 2022-23 a 2023-2024.**

Roedd cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru ar addysg ôl-16 yn y blynyddoedd y gofynnwyd amdanynt fel a ganlyn:

2022-23 - £579,045,190

2023-24 - £579,954,759

Mae gwybodaeth lawn am gyllid addysg a hyfforddiant ôl-16, gan gynnwys dyraniadau cyllid i golegau addysg bellach ac awdurdodau lleol, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: Cynllunio a chyllido ôl-16 | Is-bwnc | LLYW. CYMRU

Rheolir gwariant grant addysg uwch gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Gellir dod o hyd i wybodaeth am gyfanswm eu gwariant a'u dyraniadau cyllid ar eu gwefan: Ein dulliau cyllido | CCAUC

**3) Y gyllideb sy'n cael ei neilltuo ar gyfer addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (ar wahân) ar draws yr holl sector, fel symiau yn ogystal â fel canrannau o'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn 2022-23 a 2023-2024.**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth am swm na chyfran y cyllid addysg ôl-16 y mae'n ei ddyrannu i golegau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion sy'n cael ei wario ar addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Nid yw'r data a gesglir ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn colegau addysg bellach ac mewn chweched dosbarth ysgolion yn pennu dyraniadau cyllido nac yn gysylltiedig â nhw.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu codiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach i adlewyrchu'r costau ychwanegol o ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Yn 2022-23 a 2023-24, dyrannwyd £2,996,537 o godiad cyllid cyfrwng Cymraeg i awdurdodau lleol. Yn 2022-23 a 2023-24, dyrannwyd £3,902,499 o godiad cyllid i golegau addysg bellach. Mae'r cyllid hwn yn ategu'r prif ddyraniadau cyllid ar gyfer darpariaeth ôl-16 a mater i awdurdodau lleol a phob coleg unigol yw penderfynu faint o gyfanswm ei ddyraniad ôl-16 y mae'n ei wario ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu codiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddarparwyr prentisiaethau. Roedd y symiau a oedd ar gael i ddarparwyr yn erbyn gwerthoedd eu contract yn y blynyddoedd y gofynnwyd amdanynt fel a ganlyn:

2022/23 (blwyddyn academaidd) - £920,085

2023/24 (blwyddyn academaidd – mis Awst i fis Ebrill hyd yma) - £762,281

Nid yw'r data blwyddyn gyfan ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 ar gael eto.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu grant i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i greu cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog mewn colegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Mae'r grant hwn yn cael ei reoli ar wahân i'r gyllideb addysg ôl-16.

Roedd dyraniadau cyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y blynyddoedd y gofynnwyd amdanynt fel a ganlyn:

2022-23 - £8,908,000

2023-24 - £10,118,000